Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2023. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

15 Mai 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) ("y Prif Reoliadau").

1.2 Mae'r Prif Reoliadau'n caniatáu i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG (fel y bo'n gymwys) yng Nghymru godi ac adennill ffioedd am wasanaethau gofal iechyd perthnasol a ddarperir i ymwelwyr tramor nad ydynt yn preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig (DU), oni bai bod yr ymwelydd tramor neu'r gwasanaeth y mae'n ei gael yn syrthio o fewn eithriad codi tâl.

1.3 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud i sicrhau bod gofyniad i'r GIG yng Nghymru drin cleifion tramor o:

- Ascension;
- Bermuda;
- Ynysoedd Cayman;
- Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno ("Pitcairn"); a
- Tristan da Cunha

Yn unol â'r cytundebau rhyngwladol a negodir gan Lywodraeth y DU, mae'n cael ei adlewyrchu yn y Prif Reoliadau.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan adran 124 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (Deddf 2006), sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer codi ac adennill ffioedd gan bersonau nad ydynt yn "preswylio'n arferol" yn y Deyrnas Unedig ar gyfer gwasanaethau'r GIG.

3.2 Mae'r offeryn hefyd yn cael ei wneud o dan adran 203(9) o Ddeddf 2006 ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Bydd y Rheoliadau'n rhoi effaith lawn o fewn y Prif Reoliadau i gytundebau rhyngwladol a negodir gan Lywodraeth y DU ar lefel y DU. Mae'r cytundebau gydag Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha. Mae gan Bermuda, Ynysoedd Cayman a Pitcairn gytundebau ar wahân â'r DU. Mae Ascension a Tristan da Cunha (ynghyd â St Helena sydd â chytundeb sy'n bodoli eisoes gyda'r DU ac sydd eisoes wedi'i chynnwys yn y Prif Reoliadau) wedi ymrwymo i un cytundeb. Y cytundebau yw:

- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Bermuda ynghylch Trefniadau Gofal Iechyd dyddiedig 11 Mai 2023;
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Ynysoedd Cayman ynghylch Trefniadau Gofal Iechyd dyddiedig 11 Mai 2023;
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno ynghylch Trefniadau Gofal Iechyd dyddiedig 11 Mai 2023;
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraethau St Helena, Ascension a Tristan da Cunha ynghylch Trefniadau Gofal Iechyd dyddiedig 11 Mai 2023.

4.2 Mae'r cytundebau'n nodi y bydd pob Tiriogaeth Dramor yn cael cwota cyfyngedig o atgyfeiriadau cleifion ar gyfer triniaeth yn y DU, nifer yr atgyfeiriadau a hysbysir gan y DU o bryd i'w gilydd. Mae'r DU wedi cytuno â'r Tiriogaethau Tramor y caiff hyn ei bennu'n bum claf i bob Tiriogaeth Dramor y flwyddyn ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw un o'r Tiriogaethau Tramor hyn yn cael Cymorth Datblygu Swyddogol bydd y cwota hwn yn cynyddu i 10 claf ar gyfer y Diriogaeth Dramor o dan sylw.

4.3 Mae'r cwota wedi'i ledaenu ar draws cyfnod o dair blynedd gyda dyraniad treigl tair blynedd o leoedd cwota i ganiatáu hyblygrwydd.

4.4 Bydd unrhyw gleifion sy'n cael eu hanfon i'r DU am driniaeth yn ychwanegol at y cwota yn gorfod talu 100% o dariff y GIG.

4.5 Cafodd y Cytundebau eu llofnodi gan gynrychiolwyr Llywodraeth y DU ar ddyddiadau'r Memoranda a nodir ym mharagraff 4.1 a byddant yn dod i rym ar 5 Mehefin 2023.

4.6 Mae'r Prif Reoliadau yn nodi'r dyletswyddau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG ynghylch codi tâl am drin ymwelwyr tramor. Maent yn cynnwys categorïau o ymwelwyr tramor sydd wedi'u heithrio rhag talu ffi, gan gynnwys rhai sy'n cael gwasanaethau sy'n dod o dan gytundebau gofal iechyd rhyngwladol. Mae Atodlen 2 o'r Prif Reoliadau'n rhestru gwledydd y mae gan y DU gytundebau o'r fath â hwy.

4.7 Bydd mewnosod Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha, yn Atodlen 2 o'r Prif Reoliadau'n sicrhau bod y cytundebau y cyfeirir atynt uchod yn cael effaith gyfreithiol lawn yng Nghymru o ran codi tâl ar ymwelwyr o dan y cytundebau hynny.

5. Ymgynghori

5.1 Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori cyn gwneud y Rheoliadau. Bernir nad yw'r diwygiadau arfaethedig yn gofyn am ymgynghoriad gan eu bod yn rhoi ar waith cytundebau rhyngwladol y DU sy'n gymwys i'r DU gyfan ac felly mae'n ofynnol i Gymru eu rhoi ar waith a'u parchu.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr Opsiynau

6.1 Ystyriwyd dau opsiwn:

- **Opsiwn 1:** Gwneud dim, cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd.
- **Opsiwn 2:** Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989.

Opsiwn 1: Gwneud dim:

6.2 Byddai'r opsiwn hwn yn cadw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 (OS 1989/306) (“y Prif Reoliadau”) fel y maent mewn grym ar hyn o bryd, gan beidio â’u diwygio i adlewyrchu'r cytundebau rhyngwladol rhwng y DU ac Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha.

Costau a Manteision

6.3 Nid oes unrhyw gostau na manteision ariannol i'r opsiwn hwn, gan fod y cytundebau newydd rhwng y DU a'r Tiriogaethau Tramor yn gosod rhwymedigaeth ar y DU yn ei chyfanrwydd ac mae'n ofynnol i Gymru eu rhoi ar waith a'u parchu. Ni fyddai methiant i wneud y newidiadau hyn, felly, yn newid rhwymedigaeth Cymru i weithredu gofynion y cytundebau ag Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha.

6.4 Nodir gwybodaeth am gostau amcangyfrifedig y cytundebau ag Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha i Gymru ym mharagraffau 6.11 i 6.17 isod.

6.5 Byddai peidio ag adlewyrchu'r newidiadau i'r cytundebau gofal iechyd a wnaed gan Lywodraeth y DU ac ymgorffori rhai yn y Prif Reoliadau yn gadael cyfraith Cymru yn anghywir.

6.6 Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn gadael diffyg eglurder i'n Byrddau Iechyd Lleol os na fydd y Prif Reoliadau'n adlewyrchu safbwynt y DU yn gywir, gan fod Byrddau Iechyd Lleol yn defnyddio'r Prif Reoliadau i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol ac i ddarganfod a yw'r bobl y maent yn darparu gwasanaethau'r GIG iddynt yn gorfod talu ffioedd neu a ydynt wedi'u heithrio rhag talu ffioedd.

Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989.

6.7 Byddai'r opsiwn hwn yn diwygio'r Prif Reoliadau i fewnosod cyfeiriad at y cytundebau rhyngwladol rhwng y DU ac Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha.

Costau a Manteision

6.8 Bydd ychwanegu Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha at y Prif Reoliadau'n sicrhau bod y gyfraith yng Nghymru'n dal yn gywir ac yn weithredadwy ac yn adlewyrchu'r diweddariadau deddfwriaethol a wnaed gan Lywodraeth y DU.

6.9 Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi eglurder i'n Byrddau Iechyd Lleol gan y byddai'r Prif Reoliadau yn adlewyrchu safbwynt y DU yn gywir.

6.10 Fel gydag Opsiwn 1, nid oes unrhyw gostau na manteision ariannol ychwanegol i'r opsiwn hwn, gan fod y cytundebau a lofnodwyd yn rhwymo'r DU gyfan ac mae'n ofynnol i Gymru eu rhoi ar waith a'u parchu, ni waeth a gyfeirir atynt yn benodol yn y Prif Reoliadau.

Amcangyfrif o gostau cytundebau ag Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha i Gymru.

6.11 Fel y nodir uchod, bydd costau sy'n deillio o'r cytundebau hyn yn cronni i Gymru o dan Opsiynau 1 a 2. Fe'u cyflwynir felly er gwybodaeth yn unig.

6.12 Caniateir i bob un o'r Tiriogaethau Tramor sy'n cael eu hychwanegu at y Prif Reoliadau (Ascension, Bermuda, Ynysoedd Cayman, Pitcairn a Tristan da Cunha) anfon nifer o gleifion y flwyddyn am driniaeth yn y DU. Mae'r DU wedi cytuno â'r Tiriogaethau Tramor y caiff hyn ei bennu'n bum claf i bob Tiriogaeth Dramor y flwyddyn ar hyn o bryd. Os bydd unrhyw un o'r Tiriogaethau Tramor hyn yn cael Cymorth Datblygu Swyddogol bydd y cwota hwn yn cynyddu i 10 claf ar gyfer y Diriogaeth Dramor berthnasol. O'r bum Tiriogaeth Dramor sy'n cael eu hychwanegu at y prif Reoliadau, mae Pitcairn a Tristan da Cunha yn cael Cymorth Datblygu Swyddogol ar hyn o bryd.

6.13 Mae'r cwota wedi'i ledaenu ar draws cyfnod o dair blynedd gyda dyraniad treigl tair blynedd o leoedd Cwota i ganiatáu hyblygrwydd.

6.14 Bydd unrhyw gleifion sy'n cael eu hanfon i'r DU am driniaeth yn ychwanegol at y cwota yn gorfod talu 100% o dariff y GIG.

6.15 O gofio'r niferoedd bach o gleifion o dan sylw a'r tebygolrwydd y byddant yn ceisio triniaeth yn Lloegr, bach iawn fydd effeithiau trin cleifion cwotâu yng Nghymru.

6.16 Mae mesur diogelu pellach yn cael ei ddarparu gan y cytundebau lle y gall atgyfeiriadau am driniaeth o dan y trefniant cwota gael eu gwrthod gan Fyrddau Iechyd Lleol Cymru os bydd materion o ran capasiti neu gost yn codi.

6.17 Bydd Byrddau Iechyd Lleol yn parhau i gael y dyraniad blynyddol presennol o £822,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer trin ymwelwyr tramor na chodir tâl arnynt oherwydd cytundebau gofal iechyd dwyochrog. Bydd parhau â'r dyraniad hwn yn helpu'r Byrddau Iechyd Lleol mewn achosion lle nad oes modd adfer unrhyw gostau oddi wrth ymwelwyr tramor.

7 Asesu'r Gystadleuaeth

7.1 Ni ddisgwylir i'r Rheoliadau effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau yng Nghymru.

8 Adolygu ar ôl gweithredu

8.1 Nid oes angen adolygiad ar ôl gweithredu gan fod y newidiadau a wneir gan y rheoliadau yn rhoi effaith i gytundebau rhyngwladol.